**MB/AD/0886/06**

**Y PWYLLGOR MENTER, ARLOESI A RHWYDWEITHIAU**

**Dyddiad:** 22 Tachwedd 2006

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Senedd, Bae Caerdydd

**Teitl:** Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (MARh) 2007-08

**Diben**

Hysbysu'r Pwyllgor o gynigion terfynol Cyllideb y Cynulliad ar gyfer Prif Grŵp Gwariant MARh ar gyfer 2007/08;

Hysbysu'r Pwyllgor o'r cynigion i ailstrwythuro'r Meysydd Rhaglenni Gwariant a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn Prif Grŵp Gwariant MARh.

**Adran A**

**Cynigion Terfynol Cyllideb y Cynulliad ar gyfer 07/08**

**PRIF GRŴP GWARIANT MARh - FFIGURAU CRYNO**

| | **2006-07** | **2007-08** | **2008-09** | **2009-10** |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw DEL** | 700,171 | **702,055** | 702,055 | 702,055 |
| **Cyfalaf DEL** | 448,685 | **466,568** | 466,568 | 466,568 |
| **Cyfanswm DEL** | 1,148,856 | **1,168,623** | 1,168,623 | 1,168,623 |
| **Ffyrdd - Cost Cyfalaf** | 322,000 | **333,000** | 333,000 | 333,000 |
| **Cyfanswm y Prif Grŵp Gwariant MARh** | 1,470,856 | **1,501,623** | 1,501,623 | 1,501,623 |

1. **Cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft a'r Gwariant Ychwanegol a Ariannwyd yn y Setliad.**

   Gwnaeth y Gweinidog Cyllid ei chyhoeddiad am ddyraniadau cyllideb ddrafft 07/08 ddydd Mawrth Hydref 17 2006. Darparodd hyn gyfanswm o £1,168,623k o'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) gyda £333m arall ar gyfer Cost Cyfalaf Ffyrdd. Seiliwyd y cynigion hyn yn bennaf ar y cyllidebau dangosol hynny a gymeradwywyd fel rhan o Gylch Cynllunio'r Gyllideb yn 2005.

Fodd bynnag, cynhwyswyd £16.5m ychwanegol yn y swm hwn ar gyfer Trafnidiaeth y cytunwyd arno yn y setliad a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf. Dylid nodi bod hyn yn ychwanegol at y £7.6m arall a gymeradwywyd fel rhan o ddyraniadau'r gyllideb ddangosol a bennwyd fis Rhagfyr diwethaf yn ystod Cylch Cynllunio'r Gyllideb yn 2005. O ganlyniad, mae gan Drafnidiaeth lefel ychwanegol o gyllid o £24.1m o gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Eglurir y £16.5m ychwanegol ymhellach isod.

**£15 miliwn ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw Ffyrdd Lleol**
Mae £15 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu yn 2007-08 i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw ffyrdd lleol sydd wedi cronni. Bydd y swm ychwanegol yn rhan o'r gyllideb Trafnidiaeth a chaiff ei roi i awdurdodau lleol ar ffurf grant.

Nid yw cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw ffyrdd lleol yng Nghymru wedi ei neilltuo ac mae'n cystadlu â gwasanaethau eraill am gyfran o'r grant bloc a gaiff awdurdodau lleol gan lywodraeth ganolog. Yn y blynyddoedd diwethaf mae awdurdodau lleol wedi galw am ddyrannu adnoddau ychwanegol i'r gwaith hwn ar ail nifer o adroddiadau a nododd bod mwy a mwy o waith cynnal a chadw wedi cronni. Cyn dyrannu'r cyllid ychwanegol hwn cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu mentrau a anelir at ddarparu mesur gwrthrychol o'r gwaith sydd wedi cronni a phrosiect i sefydlu faint o waith mewn gwirionedd sydd wedi cronni. Nododd y prosiect, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Syrfewyr Sir, a chan ddefnyddio'r dechnoleg arolwg cyflwr laser ddiweddaraf ym mis Medi 2006 mai gwerth presennol y gwaith sydd wedi cronni yw £140 miliwn.

**£1.5 miliwn ar gyfer Llinell Reilffordd Glynebwy**
Mae hyn yn cynrychioli cryn gymorth refeniw i weithredu gwasanaethau i deithwyr ar Linell Reilffordd Glynebwy. Disgwylir i gam 1 y prosiect gael ei gwblhau a'i adeiladu erbyn haf 2007 gan ddarparu gwasanaeth bob awr rhwng Glynebwy a Chaerdydd.

## 2. Materion a Godwyd gan y Pwyllgor yn ystod Cylch Cynllunio'r Gyllideb yn 2006

Gwahoddwyd y Pwyllgor yn flaenorol i ystyried ei safbwyntiau ar flaenoriaethau'r gyllideb ar gyfer 07/08 yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2006. Codwyd y materion canlynol gan y pwyllgor.

- **Cynnydd mewn Arian Cyfatebol -** Roedd Aelodau yn pryderu ynghylch canlyniadau'r gyllideb os nad oedd yn bosibl defnyddio arian y sector

cyhoeddus fel arian cyfatebol ar gyfer y cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol a theimlwyd y dylai cynnydd dangosol mewn arian cyfatebol gael ei gynnwys yn nhablau'r gyllideb. Mae rhaglenni'r UE ar y cam drafft o hyd ond mae MARh yn parhau â'i drafodaethau â WEFO ar faterion arian cyfatebol ac yn ymchwilio i'r graddau y bydd angen arian cyfatebol o gyllideb MARh.

At hynny, pan gyflwynir y rhaglenni i'r Comisiwn Ewropeaidd, caiff manylion y dyraniadau ariannol a'r cyfraddau ymyrraeth grant ar gyfer blaenoriaethau unigol eu nodi. Ceisiwyd barn am y dyraniadau cyffredinol yn ystod yr ymarfer ymgynghori a chaiff ei chyd-drafod gyda'r Comisiwn maes o law. Bu rhaglen gyfredol Amcan 1 yn llwyddiannus iawn yn nodi a defnyddio ffynonellau o arian cyfatebol. Mae'r gwaith o uno Llywodraeth y Cynulliad a rhai o'i hasiantaethau yn ddiweddar wedi rhoi cyfle i sicrhau hyd yn oed mwy o gydlyniaeth.

- **Cynyddu'r galw am delathrebu** - Nododd Aeodau'r swm sylweddol yn y gyllideb ar gyfer y seilwaith telathrebu a theimlwyd y dylid cyfeirio'r cyllid tuag at gynyddu'r galw ac nid buddsoddi mewn seilwaith ac offer yn unig. Gwnaed cryn waith dros y blynyddoedd diwethaf i godi ymwybyddiaeth. Gwneir llawer o'r gwaith hwn drwy gymorth busnes a gweithgareddau rheoli cyfrifon ac ni chaiff ei nodi ar wahân.

- **Buddsoddi mewn technolegau yn y dyfodol** - trafodwyd buddsoddi mewn technolegau yn y dyfodol gan yr Aelodau hefyd a'r angen i hyn fod mewn ardaloedd a fyddai'n dwyn manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru. Mae'r gweithgareddau arloesol a ariennir gan MARh yn ymdrechu i gynyddu capasiti arloesol y rhannau o economi Cymru sy'n creu cyfoeth i gynyddu a lledaenu ffyniant ar draws Cymru gyfan. Mae'r lleihad yn y maes arloesi fel y nodwyd y llynedd yn rhannol oherwydd bod rhai prosiectau cyfalaf pwysig yn cael eu cwblhau yn 2006/07 ac effeithlonrwydd o ganlyniad i'r uno.

- **Mesur perfformiad Datblygu Cynaliadwy** - trafododd y pwyllgor y ffordd y caiff perfformiad yn y maes hwn ei fesur ac edrychodd ymlaen at gael manylion am sut yr ymgorfforir hyn yng ngweithgareddau'r Adran. Fel rhan o ddatblygiad dangosyddion olrhain W:AVE, ymchwilir i sawl mesur cynaliadwyedd newydd. Mae hwn yn fater i MARh i'w drafod gyda'r Pwyllgor fel rhan o'i ddiweddariadau rheolaidd.

- **Adolygiad o adroddiad y Pwyllgor ar bolisi gwyddoniaeth** - gofynnodd yr Aelodau i'r Polisi Gwyddoniaeth sydd ar fin cael ei gyhoeddi gael ei gadw mewn cof ac unrhyw oblygiadau pellach sy'n deillio ohono. Rhoddir ystyriaeth briodol i flaenoriaethau'r Polisi Gwyddoniaeth.

## 3. ARBEDION EFFEITHLONRWYDD CREU'R CYSYLLTIADAU

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb bu'r canlynol yn ystyriaethau allweddol:

- Mae model newydd o atebion busnes yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys datblygu mentrau symlach a mwy effeithlon ac ymagwedd newydd tuag at reoli cyfrifon a fydd wedi ei chysylltu'n agos â'r banc gwybodaeth ar gyfer busnes.

- Cynnydd sylweddol o ran datblygu ymagwedd ranbarthol effeithiol tuag at gynllunio a darparu gwasanaethau trafnidiaeth.

- Prif feysydd arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu cysylltu'n agos â buddiannau arfaethedig sy'n deillio o'r uno sy'n cynnwys:

    - Un man cyswllt cychwynnol â chwsmeriaid, gyda rheolwyr cyfrifon penodedig a fydd yn helpu cleientiaid i gael gafael ar yr ystod lawn o wasanaethau.
    - Darparu mor agos â phosibl at gwsmeiriad drwy'r swyddfeydd rhanbarthol gan wella ein gallu i ymateb i anghenion lleol, cyfleoedd ac arbenigrwydd.
    - Dod â grantiau cyfalaf ynghyd (RSA, AIG, Grant Twristiaeth Adran 4, SMART Cymru, Grant Datblygu Eiddo) ym maes busnes newydd Buddsoddi Cymru, gyda phrosiectau buddsoddi yn cael eu hystyried gan Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru. Y nod yw creu un gronfa fuddsoddi hyblyg ar gyfer busnes.
    - Symleiddio rhaglenni cymorth busnes ymhellach yn un gronfa gymorth arbenigol gyda'r hyblygrwydd i gaffael o ffynonellau'r sector preifat.
    - Synergeddau'n tarddu o ddwyn ynghyd MasnachCymru Rhyngwladol ac Is-adran Ryngwladol y WDA yn un maes busnes Masnach a Buddsoddiad cyfunol gyda swyddfeydd tramor unigol.
    - Dwyn ynghyd weithgareddau marchnata o bob rhan o'r WDA yn un maes busnes Twristiaeth a Marchnata.
    - Yn ogystal mae'r Strategaeth Ariannu Eiddo wedi galluogi cynnydd graddol ym maes datblygu eiddo, fel sy'n ofynnol yn ôl y Strategaeth Eiddo, heb gynnydd yng Nghyllid y Cynulliad.

## 4. Rhagor o Newidiadau Arfaethedig i'r Gyllideb.

Yn dilyn y cyhoeddiad drafft ar y gyllideb rwyf yn argymell bod newidiadau pellach yn cael eu hymgorffori yng nghynigion terfynol y gyllideb a gaiff eu cyhoeddi ar ddechrau mis Rhagfyr. Dangosir y newidiadau pellach hyn ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) yn Nhabl 1, o dan y 'golofn newidiadau arfaethedig' ac fe'u heglurir isod.

- **Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo - Refeniw (Cynnydd o £4m)**

  Dangosir y Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo - Refeniw SPA yn 'net' ar ôl didynnu derbyniadau a gynhyrchir yn bennaf o incwm rhentu o bortffolio eiddo'r pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Cynigir lleihau lefel yr incwm £4m fel ei fod yn fras yn cyfateb i lefel yr incwm sy'n cael ei gynhyrchu yn y flwyddyn ariannol gyfredol, gan gynyddu'r gwariant a gofnodir. Gwneir iawn am y lleihad mewn derbynebion drwy gynyddu targed derbynebion cyfalaf sy'n Gysylltiedig ag Eiddo, a ddangosir yn y Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo - Cyfalaf SPA. (Gweler isod).

- **Hyrwyddo Busnes Domestig a Rhyngwladol (Lleihad o £3,163k)**

  O dan y strwythur presennol mae'r SPA hwn yn ymgorffori gwariant ar weithgareddau Mewnfuddsoddi a gweithgareddau'r farchnad ddomestig yn y DU. Cynigir lleihau cyllideb ddrafft 07/08 ar gyfer Mewnfuddsoddi £2,163k, a fydd yn dod â'r lefel gwariant yn ôl i'r lefel sy'n cael ei gwario yn 06/07. At hynny, cynigir lleihau'r gyllideb Farchnata £1m, a fydd yn rhannol yn adlewyrchu'r effeithlonrwydd a gynlluniwyd drwy dynnu ynghyd weithgareddau marchnata o bob rhan o'r hen WDA yn un maes busnes Twristiaeth a Marchnata.

- **Cyllid Ewropeaidd (Lleihad o £537k)**

  Mae'r lleihad hwn yn erbyn y Llinell Gwariant yn y Gyllideb a elwir yn 'Bartneriaeth Cronfeydd Strwythurol'. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn hanesyddol i ariannu costau cymorth staff i'r partneriaethau a'r timau datblygu. Trosglwyddwyd y costau hyn a bellach fe'u cofnodir fel rhan o gostau rhedeg dirprwyedig MARh. Erys elfen fach o gymorth uniongyrchol ar gyfer darparu prosiect o fewn y llinell wariant yn y gyllideb.

- **Trafnidiaeth - Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Lleol (Lleihad o £300k)**

  Ni fydd rhaglen arfaethedig yr Ymddiriedolaeth Arbedion Ynni, a fwriadwyd i hyrwyddo cerbydau ecogyfeillgar a thanwydd yn mynd rhagddi mwyach, am resymau gwerth am arian, gan ei gwneud yn bosibl i arian gael ei ryddhau o'r llinell wariant hon yn y gyllideb.

- **Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo - Cyfalaf (Lleihad o £4m)**

  Gweler y sylwadau o fewn Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo - Refeniw, uchod.

- **Cefnogaeth i Greu Cyflogaeth (Cynnydd o £4m yn y llinell wariant yn y gyllideb)**

  Mae'r cynnydd hwn yn ymwneud â chreu Llinell Wariant newydd yn y Gyllideb o'r enw 'Cronfa Buddsoddi Hyblyg'. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddwyn ynghyd y cynlluniau grant amrywiol a weithredir gan MARh, yn un gronfa fuddsoddi hyblyg ar gyfer busnes. Y bwriad yw y dylai'r cynllun fod yn weithredol erbyn hydref 2007, a'r adeg honno caiff y cronfeydd o'r holl gynlluniau gwahanol presennol eu cyfuno. Bwriedir gweithredu ar hyd y llinellau hyn ar raddfa fechan o ddechrau'r flwyddyn ariannol ac o ganlyniad cynigir bod £4m yn cael ei neilltuo at y diben hwn.

**<u>Adran B</u>**

**<u>Cynigion ar gyfer Ailstrwythuro'r Meysydd Rhaglenni Gwariant (SPA's) a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL's).</u>**

Datblygodd y strwythur SPA/BEL tua 12 mis yn ôl fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb yn 2005 ac adlewyrchodd yn bennaf y sefyllfa a fodolai yn hen adran ADETh cyn yr Uno. Gwnaed diwygiadau fel rhan o broses ymgynghori'r Uno, a chwblhawyd y strwythur ym mis Tachwedd 2005 yn unol ag amserlen cylch cynllunio'r gyllideb yn 2005.

Fodd bynnag, mae adran newydd MARh a ddaeth i fodolaeth tua 4 mis yn ddiweddarach wedi mynd drwy gyfnod parhaus o adolygu a newid strwythurol sefydliadol ers cytuno ar y strwythur SPA/BEL presennol. Mae anawsterau gweithredu yn y strwythur presennol wedi codi ac mae wedi bod yn anodd alinio cyfrifoldeb gweithredol o fewn y fframwaith cyllidebu a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2005.

Felly, cynigir bod y fframwaith cyllideb a gwariant yn cael ei ailgyflwyno fel y dangosir yn Nhabl 2. Yma, dangosir y strwythur newydd ochr yn ochr â'r strwythur presennol fel y gellir gwerthfawrogi'r newidiadau arfaethedig yn llawn. Bydd y strwythur newydd hwn yn caniatáu i ni alinio'r strwythur SPA/BEL yn agosach â strwythur sefydliadol MARh a'r cyfrifoldeb gweithredol dirprwyedig at ddibenion cynllunio, monitro ac adrodd.

Nid yw'r cynnig yn newid mawr sylweddol ac yn y rhan fwyaf o achosion rydym wedi cadw'r SPA's presennol er iddynt gael eu hailenwi. Mae'r cynnig yn ymgorffori dau SPA ychwanegol h.y. Polisi, Ymchwil a Gwerthuso a Chysylltiadau Rhyngwladol. Bydd hyn yn caniatáu i ni wahanu'r math hwn o wariant yn fwy clir. Cynigir ailenwi nifer o linellau gwariant yn y gyllideb a lleihau eu nifer o 67 i 58 (ac eithrio

Trafnidiaeth sy'n aros yn ddigyfnewid). Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r dryswch a'r dyblygu sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn cydweddu'n fwy strategol a phriodol.